# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Y Plas**

**Y Plas**
**Llanelli**
**SA15 4LP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Y Plas

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13/04/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Y Plas, ac yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol gweithwyr gofal a rheolwyr y gwasanaeth.
Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau unigol y bobl ac maent yn eu parchu. Mae'r cofnodion gofal yn cyfleu'r unigolion yn dda, yn adlewyrchu eu hanghenion gofal presennol ac yn cynnwys yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr.

Caiff y rheolwr ei barchu gan y tîm o staff a'i gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n defnyddio ei hymweliadau a dulliau amrywiol i archwilio ansawdd er mwyn sicrhau bod ganddi drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae Y Plas yn cynnig amgylchedd bywiog i'r bobl sy'n groesawgar ac yn lân. Mae'r décor a'r addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o gwmpas yn annibynnol a mwynhau'r cyfleusterau. Mae'r gerddi cymunedol yn cynnig lleoedd i'r bobl gymdeithasu a mwynhau.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei hymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r bobl yn sgwrio yn Gymraeg a chânt wybodaeth yn Gymraeg os mai hon yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth dda am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r bobl yn mwynhau mynychu'r amrywiaeth o weithgareddau a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael arnynt.

Mae'r amgylchedd yn sicrhau llesiant y bobl. Mae'r addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd eu hunain o amgylch y coridorau neu i'w hystafelloedd gwely. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn lleoedd croesawgar ac mae'r gerddi yn cynnig lle diogel i'r bobl ymlacio, cwrdd ag ymwelwyr a chymdeithasu.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion gofal a chymorth unigol y bobl eu cydnabod a'u deall. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus am hanesion personol yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r cofnodion gofal electroneg y gwnaethom eu gweld yn rhoi darlun da o'r unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth penodol. Caiff yr asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd hefyd. Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol gofal a chymorth y gwasanaeth "*I couldn't be in a better home it's excellent here, the staff are wonderful", "the carers are lovely, they are just like family to me"* a *"this is an absolutely fantastic home, this is not only the best home in Llanelli but in Carmarthenshire".*

Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r cynllun 'Gwên am Byth' sy'n rhoi arweiniad gwerthfawr a hyfforddiant ar iechyd y geg i bobl sy'n agored i niwed.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n garedig a chadarnhaol â'r bobl. Mae nifer o'r tîm o staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg os dyma'r iaith maent wedi ei dewis. Mae'r gweithgareddau yn chwarae rhan bwysig yn arferion y bobl. Caiff unigolion eu cefnogi a'u hannog yn frwdfrydig i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau. Yn ystod dosbarth ymarfer corff mewn cadeiriau breichiau, gwelsom y bobl a'r staff yn ymgymryd o ddifrif â'r geithgaredd gyda digonedd o chwerthin a mwynhad i'w weld. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau "*this is really fun and keeps me fit", "oh! I enjoyed that, it gets the old heart pumping and it's such a laugh".* Caiff therapïau mwy ymlaciol eu darparu iddynt hefyd, dywedodd un person a oedd wrthi'n cael paentio eu hewinedd wrthym "*I told you they are excellent here, look at all the pampering we have".*

Mae'r bobl yn cael dewis pryd i godi a mynd i'w gwelyau a chaiff hyn ei gofnodi'n glir yng nghynlluniau gofal a chymorth y bobl. Mae opsiynau amrywiol ar gyfer prydau bwyd bob amser ac mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn hawdd. Dywedodd y bobl wrthym *"the food is very tasty – I know there are different options if I want anything different".*

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Dywedodd y bobl gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Y Plas ac yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny *"I'd speak to one of the carers if I had a complaint"* a *"I feel safe here, I have no concerns".* Mae'r perthnasau hefyd yn teimlo fel bod aelodau o'u teulu yn ddiogel *"I know I can speak to any staff if I have a concern and mam is safe"* a *"I know I can raise a concern with [manager] or any of the staff, they will listen to me and I am confident it would be dealt with. I know my mother is safe here".* Caiff manylion am weithdrefn gwyno

Cyngor Sir Caerfyrddin eu darparu i'r bobl wrth iddynt symud i'r gwasanaeth a'u harddangos mewn ardaloedd cymunedol.

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir bod angen. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd i'w defnyddio gan y bobl ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Cefnogir y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae dau o dri choridor yr ystafelloedd gwely wedi'u haddurno a'u personoli i gefnogi symud o gwmpas o fewn y gwasanaeth. Mae thema wrthi'n cael ei datblygu i addurno'r trydydd coridor. Mae llun  o'r unigolyn neu rywbeth sy'n eu cynrychioli nhw ar ddrysau eu hystafelloedd gwely. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â dewisiadau'r bobl. Dywedodd un person wrthym *"I like sitting in my bedroom and looking at the views, they change with the weather".*

Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol wedi'u personoli a'u gwneud i deimlo'n ddeniadol gyda phlanhigion, lluniau, a wal gyda lluniau ac ornamentau yn hongian, y gellir eu glanhau. Mae hyn yn welliant ers yr arolygiad diwethaf. Dywedodd un person wrthym cyn iddi fynd am fath *"it is pretty and I like having a bath in there".* Mae'r toiledau cymunedol hefyd wedi cael eu gwneud i deimlo'n fwy croesawgar a chartrefol gyda drychau, planhigion ac ornamentau. Mae arwyddion dwyieithog drwy gydol y gwasanaeth.

Mae dau gaffi bach â chyfarpar i'r bobl a'u teuluoedd ddefnyddio. Mae'r ddau gaffi wedi'u haddurno'n ddel ac yn teimlo'n groesawgar. Caiff y caffis eu defnyddio a'u mwynhau'n rheolaidd. Dywedodd perthynas wrthym *"we come here as mam doesn't like going out anymore. It feels like we are going to an ordinary café and she is going out somewhere. I think this is really important".*

Mae gerddi cymunedol ar gael i'r bobl eu defnyddio ac maent yn cynnig nifer o ardaloedd i'r bobl eistedd a chymdeithasu gyda ffrindiau a theulu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol da ar waith. Caiff y gwiriadau a'r cliriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff medrus sydd wedi'i hyfforddi a'i gefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn deall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gallant ddarparu manylion am yr unigolion yn eu gofal a'u hanghenion gofal penodol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mynychu amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddiant, a chaiff hyn ei ategu drwy ddarllen matrics hyfforddiant y staff.

Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Caiff y bobl eu symud a'u trin yn ddiogel, a chaiff eu hanghenion unigol eu hystyried. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio a gaiff eu dogfennu yn rheolaidd ynghyd ag arfarniad blynyddol; cadarnhawyd hyn gan y staff y siaradwyd â nhw. Ar y cyfan, mae'r cofnodion goruchwylio yn eu trefn. Fodd bynnag, mae angen cofnodi'r rhesymau am unrhyw fylchau mewn sesiynau goruchwylio.

Caiff y rheolwr ei barchu'n dda gan y gweithwyr gofal a ddywedodd wrthym*“[manager] is great, she is very supportive of us and the residents” and [manager] is lovely, you can always speak to her”.* Mae'n werth nodi bod y rheolwr ar wyliau ar adeg yr arolygiad ac roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg gan uwch-weithiwr gofal. Cyfrannodd yn gadarnhaol at yr ymweliad arolygu a dweud wrthym *“I feel very well supported by the manager and RI. I really enjoy working in Y Plas and for Carmarthenshire County Council. It’s a great place to work, the residents are lovely”.*

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae’r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu’r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/11/2023